

Julie Morgan AS
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau
Cymdeithasol

16 Rhagfyr 2022

Cam-drin plant yn rhywiol

Annwyl Julie,

Yn ystod trafodaethau diweddar am ein blaenraglen waith, buom yn trafod pryderon a godwyd gyda ni gan randdeiliaid yn ein hymgyngoriad ar flaenoriaethau strategol ynghylch cam-drin plant yn rhywiol. Rydym yn ymwybodol o'r gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynllun newydd ar atal cam-drin plant yn rhywiol, yn ogystal â chyhoeddiad diweddar yr Ymchwiliad Annibynnol ledled y DU, sef [adroddiad i Gam-drin Plant yn Rhywiol](#). Er mwyn sicrhau bod unrhyw waith a wnawn yn amserol ac yn ychwanegu gwerth, a fyddech cystal â rhoi amlinelliad o'r amserlenni tebygol ar gyfer llunio a chyhoeddi'r cynllun newydd? Byddem hefyd yn gwerthfawrogi rhagor o wybodaeth am sut y byddwch yn ystyried canfyddiadau'r Ymchwiliad Annibynnol wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu newydd a hefyd adroddiad Llywodraeth Cymru, sef [Atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol: adroddiad cyflenwi](#). Bydd y wybodaeth hon yn helpu i lywio ein penderfyniadau ar ein rhaglen waith yn y dyfodol.

Byddem yn gwerthfawrogi ymateb erbyn dydd Mercher 18 Ionawr.

Yn gywir



Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.